LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# PECYN YMGEISYDD A DISGRIFIAD RÔL AELOD ANNIBYNNOL



# FFORMATAU HYGYRCH

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.**

**Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni ar enquiries@llaiscymru.org.**

**Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.**

# Cynnwys

**Ynglŷn â Llais**.........**Error! Bookmark not defined.**
**Meini prawf hanfodol**...........**Error! Bookmark not defined.**
**Meini prawf dymunol**...........**Error! Bookmark not defined.**
**Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor**. **Error! Bookmark not defined.**
**Ymrwymiad amser a chydnabyddiaeth tâl**.. **Error! Bookmark not defined.**
**Sut i wneud cais** ....**Error! Bookmark not defined.**
**Gwybodaeth pellach a gwybodaeth gyswllt****Error! Bookmark not defined.**
**Yr Iaith Gymraeg**....**Error! Bookmark not defined.**
**Datganiad amrywiaeth ............**Error! Bookmark not defined.
**Datganiad anabledd ..**Error! Bookmark not defined.
**Gwiriadau cyn apwyntiad .......**Error! Bookmark not defined.
**Pwy sy'n methu â gwneud cais am y rolau**. **Error! Bookmark not defined.**

# Ynglŷn â Llais

Rydym yn gorff statudol annibynnol newydd, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o ddweud wrth bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol — yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Ar 1 Ebrill 2023, disodlodd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a elwir yn weithredol fel Llais) y 7 Cyngor Iechyd Cymuned, sydd wedi cynrychioli buddiannau pobl yn y GIG yng Nghymru ers bron i 50 mlynedd.

Sefydlwyd Llais o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y "**Ddeddf**").

Ei amcan cyffredinol yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (Adran 13 (1) o'r Ddeddf).

Mae swyddogaethau Llais wedi'u nodi yn Rhan 4 o'r Ddeddf:

| Adran 14: | Adran 15: | Adran 16: |
|---|---|---|
| Rhaid i Llais gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i amcanion cyffredinol a'i swyddogaethau, gan baratoi a chyhoeddi datganiad yn ymwneud â'r modd y mae'n bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau a cheisio barn y cyhoedd at ddiben ei amcan cyffredinol | Gall Llais wneud sylwadau i awdurdod lleol neu gorff y GIG am unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau iechyd neu ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol | Gall Llais ddarparu cymorth (drwy gynrychiolaeth neu fel arall) i unrhyw unigolyn sy'n gwneud neu'n bwriadu gwneud cwyn yn ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol yn unol ag is-adrannau 16 (2) - (9) |

Mae Llais yn cyflogi tua 110 o staff ac mae gwaith y sefydliad yn cael ei gefnogi gan oddeutu 250 o aelodau gwirfoddol.

Rydym yn awyddus i benodi 2 aelod annibynnol, gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol, i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Aelod Annibynnol 1: Arweinydd Ariannol

Meddu ar radd neu addysg bellach perthnasol neu gymhwyster proffesiynol mewn cyfrifeg neu gyllid. Dangos profiad rheoli ariannol sylweddol, perthnasol neu ddiweddar ar lefel uwch, gan gynnwys yn ddelfrydol o fewn y sector cyhoeddus a/neu'r trydydd sector.

## Aelod Annibynnol 2: Arweinydd Digidol

Gyda set sgiliau penodol sy'n ymwneud â phrofiad strategol sylweddol, perthnasol a diweddar ar lefel uwch, yn ddelfrydol gan gynnwys trawsnewid digidol a gwytnwch seiber.



## Meini prawf hanfodol

- Sgil ac arbenigedd mewn archwilio, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys yn ddelfrydol o fewn y sector cyhoeddus a/neu'r trydydd sector.
- Sgiliau dadansoddol datblygedig iawn gyda'r gallu i nodi tueddiadau, patrymau, materion allweddol a bylchau gwybodaeth mewn sefyllfaoedd cymhleth a delio â hwy yn briodol.
- Profiad o fonitro a dal Uwch Reolwyr i gyfrif.
- Annibyniaeth meddwl, gwrthrychedd a didueddrwydd.
- Lefel uchel o uniondeb personol.
- Yn dangos sgiliau gweithio tîm da, gwrando a chyfrannu'n effeithiol
- Yn gallu darparu cefnogaeth a her adeiladol sy'n cydbwyso archwaeth risg gydag atebion blaengar i faterion y mae'r sector yn eu hwynebu
- Parodrwydd i fynychu cyfarfodydd pwyllgorau a digwyddiadau datblygu a chymryd rhan ynddynt, cefnogi nodau, gwerthoedd ac amcanion Llais, ac arsylwi a chydymffurfio â safonau ymddygiad Llais.

# Meini prawf dymunol

- Ymrwymiad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a dealltwriaeth ohonynt.
- Ymrwymiad i'w datblygiad proffesiynol parhaus personol a phroffesiynol eu hunain.
- Profiad diweddar o weithio yn y sector cyhoeddus a/neu drydydd sector Cymru, yn enwedig mewn gwaith llywodraethu a sicrwydd.
- Profiad blaenorol o ymgymryd â rôl cyfarwyddwr anweithredol neu weithio ar lefel y Bwrdd.
- Gwybodaeth/profiad o weithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor.
- Sgiliau cyfathrebu da mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar.
- Sgiliau rhyngbersonol lefel uchel.

# Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

Byddwch yn gyfrifol am gefnogi'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wrth gyflawni eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Er nad oes gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg unrhyw bwerau gweithredol, mae'n chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau Llais.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw:

- Cynghori'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu drwy adolygu cynhwysfawr a dibynadwyedd sicrwydd ar ein rheolaethau mewnol; ac
- Adrodd i'r Bwrdd ar ein trefniadau archwilio er mwyn sicrhau bod rheolaethau digonol ar waith; bod risgiau yn cael eu nodi a'u rheoli; a bod trefniadau llywodraethu yn bodloni'r safonau gofynnol ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol.



## Ymrwymiad amser a thâl

Bydd y penodiad hwn am 2 flynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am 2 flynedd arall yn amodol ar berfformiad boddhaol.

Fel Aelod Annibynnol, bydd gofyn i chi dreulio hyd at 10 diwrnod y flwyddyn ar faterion pwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys 4 cyfarfod Pwyllgor, hyfforddiant a chyfarfodydd ad hoc eraill.

Y tâl am y rôl hon yw £198 y dydd.

Nid yw'r penodiadau hyn yn bensiynadwy.

Bydd Llais yn talu am gostau teithio a threuliau rhesymol eraill yr eir iddynt wrth gyflawni eich dyletswyddau.

## Sut i wneud cais

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer y rôl, bydd angen i chi gyflwyno CV a datganiad ategol yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y swydd.

Fel canllaw rydym yn awgrymu bod eich datganiad ategol yn un ochr i A4 o hyd.

Gyda'i gilydd, dylai eich CV a'ch datganiad ategol ddangos eich sgiliau a'ch profiad o'r meini prawf hanfodol a chymaint o'r meini prawf dymunol â phosibl. Rhestrir y rhain yn adran 'Meini prawf Hanfodol a Dymunol' y pecyn ymgeiswyr hwn.

Dylid anfon pob cais yn uniongyrchol i flwch post workforce@llaiscymru.org.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 24 Tachwedd 2023.**

Ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

## Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau ynghylch y rôl, cysylltwch â Ceri Sullivan, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro ac Ysgrifenyddes y Bwrdd drwy:

E-bost: ceri.sullivan@llaiscymru.org
Ffôn: **0300 025 4956**

Yn ogystal, byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn hapus i drafod y rôl gyda chi cyn cyflwyno'ch cais.

Os hoffech siarad â Chadeirydd y Pwyllgor, cysylltwch â Ceri Sullivan (manylion uchod) a all wneud y trefniadau angenrheidiol.

## Iaith Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond nid yw'n rhagofyniad ar gyfer penodi.
Bydd disgwyl i bob ymgeisydd arddangos empathi tuag at yr iaith a dangos awydd i gryfhau darpariaeth gwasanaeth dwyieithog.

## Datganiad Amrywiaeth

Rydym yn chwilio am bobl angerddol a galluog o bob cefndir sy'n dod â phrofiadau byw gwahanol a fydd yn helpu i newid y ffordd rydym yn meddwl. Rydym yn chwilio am geisiadau gan ymgeiswyr amrywiol sy'n gallu dod â sgiliau ffres, profiadau byw a safbwyntiau i'n gwaith.

## Datganiad anabledd

Rydym yn cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel y gall ein pobl berfformio ar eu gorau.

Rydym yn gwarantu cyfweld unrhyw un sy'n anabl y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Wrth 'meini prawf gofynnol' rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol yn bodloni'r lefel o gymhwysedd ar gyfer y rôl ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â ni ar workforce@llaiscymru.org cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## Gwiriadau cyn apwyntiad

Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd angen i ni gynnal gwiriadau cyn apwyntiad. Os hoffech ragor o wybodaeth am natur y gwiriadau cyn apwyntiad hyn gallwch gysylltu â ni ar workforce@llaiscymru.org.

## Pwy sy'n methu gwneud cais am y rolau

Nid yw'r unigolion canlynol yn gymwys i wasanaethu fel Aelodau Annibynnol ar ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg:

- Aelod o'r Bwrdd sy'n gwasanaethu neu aelod o staff Llais (neu briod neu bartner sifil Bwrdd neu aelod staff)
- cyn-aelod o staff
- unigolyn sydd ag unrhyw gysylltiad busnes â Llais

Mae Llais wedi cytuno ymhellach ni ddylai aelodau annibynnol:

- feddiannu swydd plaid wleidyddol gyflogedig na dal rôl arbennig o sensitif neu broffil uchel mewn plaid wleidyddol.
- wedi cael cysylltiadau sylweddol yn y gorffennol â Llais sy'n peryglu eu didueddrwydd.
- bod â pherthynas agos ag unrhyw Aelod o'r Bwrdd neu aelod o staff Llais.